Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Caer Drewyn
Clawdd Poncen
Corwen
LL21 9RT

15/10/2024

Annwyl Jayne Davies

**Ymweliad interim:** Medi 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Caer Drewyn yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r ddau argymhelliad o'i harolygiad craidd ym mis Tachwedd 2022. Ceir crynodeb isod o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Arsylwi'r dysgu ym mhob dosbarth.
- Trafod dysgu'r disgyblion gyda nhw.
- Cyfarfod ag athrawon ac arweinwyr.
- Edrych ar waith disgyblion.
- Craffu ar ddogfennau perthnasol.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad Cymraeg**

- Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn briodol. Maent yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, rhieni a'r gymuned leol i ddatblygu darpariaeth yr ysgol, ymestyn proffil y Gymraeg a darparu ystod addas o brofiadau dysgu. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r ddarpariaeth a gefnogir gan weithgareddau dysgu proffesiynol priodol ar gyfer staff. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y datblygiadau diweddar hyn ar ddeilliannau disgyblion yn llawn.
- Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn ystod gwersi, er enghraifft trwy ddarparu gorchmynion sylfaenol. Mae disgyblion iau yn ymateb i orchmynion syml yn addas. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i ymateb i gwestiynau sylfaenol a siarad Cymraeg y tu hwnt i ddefnyddio geirfa ac ymadroddion syml yn gyfyngedig. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn gwneud

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

cynnydd addas. Er enghraifft, maent yn trafod y tywydd a'u teimladau yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd, ac o ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud llai o gynnydd yn datblygu eu medrau Cymraeg nag y gallant.
- Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn ystod gwersi ac yn darparu profiadau dysgu sy'n annog disgyblion i ymarfer geiriau ac ymadroddion cyffredin. Mae ychydig o ddisgyblion iau yn adnabod lliwiau cyffredin ac yn ymateb i orchmynion sylfaenol. Fodd bynnag, mae eu geirfa yn gyfyngedig, a'u gallu i gynnal sgwrs syml wedi'i gyfyngu.
- Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn galw ymadroddion sylfaenol i gof yn hyderus ac yn cynnal sgwrs sylfaenol gydag ymwelwyr gan ddefnyddio geirfa ac ynganiad addas. Mae disgyblion mwy abl yn ymateb yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa i ymestyn eu sgwrs ac ehangu ar eu meddyliau a'u barn. Fodd bynnag, byddai'r disgyblion mwy abl hyn yn elwa ar weithgareddau mwy heriol. Mae disgyblion hŷn yn arwain gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda brwdfrydedd ac aeddfedrwydd. Mae disgyblion o bob oedran yn cymryd rhan yn bwrpasol yn y gweithgareddau hyn.
- Mae disgyblion hŷn yn werthfawrogol o fanteision siarad Cymraeg ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i wneud hynny. Ond, mae disgyblion yn amharod i sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyfan.
- Yn gyffredinol, mae disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhy isel, ac nid yw cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'u medrau Cymraeg yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a deilliannau disgyblion.

**Cryfhau adborth athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella**

- Mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion yn briodol ac yn eu hannog i fyfyrio ar eu gwaith yn bwrpasol. Mae staff yn rhoi adborth amserol i ddisgyblion, ac yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn yn herio disgyblion i feddwl yn feirniadol am eu gwaith.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn esbonio'r modd y mae adborth gan athrawon a'u cyfoedion yn eu cynorthwyo i werthuso'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda. Maent yn dechrau ymateb i adborth athrawon yn briodol, ac o ganlyniad, yn dod yn ddysgwyr mwy myfyriol, ac yn dechrau gwneud gwelliannau defnyddiol i'w gwaith.
- Mae arweinwyr yn trefnu gweithgareddau dysgu proffesiynol addas ar gyfer staff. Er enghraifft, mae staff yn rhannu arfer effeithiol gydag ysgolion lleol, ac yn ymchwilio i, a threialu, ystod o ddulliau i roi adborth i ddisgyblion.
- Mae staff yn modelu enghreifftiau da o waith gyda disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall eu tasgau yn addas ac yn esbonio'n hyderus yr hyn mae angen iddynt ei wneud i lwyddo.
- At ei gilydd, mae adborth yn dechrau datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith ar ddeilliannau disgyblion yn llawn.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn achosi unrhyw bryder.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio’n briodol i fynd i’r afael â’r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gellid eu gwella ymhellach.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses, a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632216

Yn gywir,

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol